GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES

# Llwybr Safonau Dementia Cymru

## Canllaw Cyffredinol i Ffrydiau Gwaith Cenedlaethol a Rhanbarthol

Ionawr 2022




# Nodau Gwelliant Cymru

**Er mwyn cyflawni ein nod, mae gennym dair blaenoriaeth strategol:**

- **Cefnogi sefydliadau iechyd a gofal i ail-ddylunio a gwella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn barhaus.**
- **Cefnogi ffocws ar leihau niwed y gellir ei osgoi a diogelwch o fewn systemau gofal.**
- **Adeiladu gallu gwella yn gynaliadwy yn y system iechyd a gofal.**

# Fframwaith Cyflawni





Parodrwydd a Gweithredu 2022-2023

Mae Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru yn cynnig proses systematig, y gellir ei hailadrodd sy'n addasu i anghenion penodol pob cyd-destun rhanbarthol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, profi a rhannu syniadau. Mae'n ceisio cefnogi sefydliadau a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i lywio'r camau mabwysiadu yn y camau cynnar hanfodol drwy alluogi profi a chyd-gynhyrchu gwelliannau. Mae'r fframwaith yn cefnogi camau parodrwydd a gweithredu'r llwybr safonau dementia.

Gall rhanbarthau ddefnyddio'r fframwaith i alluogi ffocws ar gynllunio, ymgysylltu, profi a lledaenu a maint gwelliannau, gan geisio adeiladu gallu gwella mwy effeithiol ar draws y system sy'n integreiddio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r fframwaith hefyd yn sicrhau cyfraniad dinasyddion ar lefel leol fel bod gwelliannau'n cael eu cyd-gynhyrchu ac yn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig i ddinasyddion.

# Strwythur y Rhaglen Dementia Genedlaethol




# Olwyn Ffrwd Waith




Mae'r diagram uchod yn dangos y ffrydiau gwaith cenedlaethol a lleol sy'n cefnogi'r bwrdd dementia rhanbarthol gyda pharodrwydd a gweithrediad Llwybr Safonau Dementia Cymru. Mae pob ffrwd waith yn canolbwyntio ar ddetholiad perthnasol o safonau. Mae'r ffrydiau gwaith cenedlaethol ar waith i arweinwyr rhanbarthol ac aelodau'r ffrwd waith ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod ffocws ar ddysgu a rennir, cyd-gynhyrchu a datblygu adnoddau i wella gofal dementia ledled Cymru.

# Disgrifyddion Ffrwd Waith Dementia



| Ffrwd waith 1 Ymgysylltu â'r gymuned | Ffrwd waith 2 Gwasanaethau Asesu Cof (MAS) | Ffrwd waith 3 Cysylltydd Dementia | Ffrwd waith 4 Siarter Ysbytai | Ffrwd waith 5 Gweithlu a Mesur |
|---|---|---|---|---|
| Safon un - Grŵp llywio ymgysylltu â'r gymuned *(1)* | **2A MAS** Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae'n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol *(2)* | Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae'n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol *(2)* | Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae'n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol *(2)* | **5A Datblygu'r gweithlu** Bydd pob aelod o staff sy'n darparu gofal ar bob lefel ym mhob disgyblaeth a lleoliad yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda chymorth i roi hynny ar waith yn feunyddiol *(17)* |
| Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae'n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol *(2)* | Mae Gwasanaethau Asesu Cof (MAS) a Gofal Sylfaenol (Meddyg Teulu) yn mabwysiadu Codau READ i gasglu diagnosis /nam gwybyddol ysgafn (MCI). **Yn cynnwys Cleifion Mewnol – cysylltiad â Siarter Ysbytai *(3)* | Bydd gweithiwr cyswllt a enwyd (cysylltwr) yn cael ei neilltuo i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gynnig cymorth, cyngor a chyfeirio, drwy gydol eu taith o ddiagnosis i ddiwedd oes. | Bydd Cymru yn mabwysiadu'r Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia a bydd y broses o'i gweithredu a'i chanlyniadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd *(11)* | **5B Mesur** Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y rhanbarth yn cyflawni gofynion yr eitemau data y cytunwyd arnynt (llyfr gwaith mesur (llawlyfr)) ar gyfer adrodd a sicrwydd *(20)* |
| Bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael mynediad, pan fydd angen, at wasanaethau perthnasol (a phan ddefnyddir gwasanaethau iechyd meddwl) penodol ar ôl diagnosis ni waeth ble maen nhw'n byw (wedi'u rhestru) e.e. ffisiotherapi, dieteteg *(13)* | Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu canlyniadau cyfres gytunedig o asesiadau ac ymyriadau a gwblhawyd wrth atgyfeirio i MAS (pan fydd yr angen yn dangos hynny). | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis o ddementia, bydd pobl yn cael cynnig cymorth i ddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gofal diwedd oes *(15)* | Bydd sefydliadau a lleoliadau gofal sy'n darparu gofal dementia dwys (mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu) yn darparu Mapio Gofal Dementia (DCM) fel rhan o ymarfer arferol *(16)* | |
| Bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb cyfredol lle y bydd adolygiad iechyd corfforol yn cael ei gynnal mewn | Bydd Gwasanaethau Asesu Cof, o fewn cyfnod o 12 wythnos o'r adeg atgyfeirio, yn darparu ystod o ymyriadau (wedi'u rhestru) i gefnogi diagnosis. | | Pontio o fewn ysbytai a llif i mewn ac allan o'r ysbyty *(19)* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| partneriaeth â gofal sylfaenol a gofal eilaidd *(14)* | Mae’n bosibl y bydd angen ystyried platfformau digidol ac addasiadau a dulliau eraill *(6)* | | | |
| Bydd pobl sy'n byw gyda dementia a’u gofalwyr / teuluoedd yn cael cefnogaeth a chymorth i ymgysylltu ag apwyntiadau. (18) | Bydd gweithiwr cyswllt ar gael i bobl a fydd yn gallu darparu cefnogaeth emosiynol drwy gydol y cyfnod asesu ac yn ystod y 48 awr ar ôl cael diagnosis, a sicrhau ei bod yn cael ei chynnig fel y bo’r angen ar ôl yr adeg hon *(7)* | | | |
| | Bydd pobl sy’n byw gyda Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI) yn cael cynnig dewis o wasanaethau cyfannol sy’n monitro eu hiechyd a’u llesiant corfforol a meddyliol *(8)* | | | |
| | **2B Rhaglenni Unigolyn a Gofalwr** Bydd Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn diffinio proses i gofnodi cyfanswm y boblogaeth sy'n byw gydag Anabledd Dysgu a Syndrom Down yn benodol er mwyn cynnig archwiliad llesiant gwybyddol. *(4)* | | | |
| | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis, bydd pobl sy’n byw gyda dementia yn cael cynnig addysg a gwybodaeth ynglŷn â phwysigrwydd gweithgareddau iechyd corfforol i gefnogi a hybu iechyd *(9)* | | | |
| | Rhaglen Pobl â dementia / Addysg a sgiliau gofalwyr *(10)* | | | |

| Ymrwymiad gan Arweinwyr Ffrydiau Gwaith | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynychu'r Glasbrint Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu (1.5 awr bob 2/12)<br>Datblygu a chynnal ffrwd waith ranbarthol e.e. aelodaeth a llywodraethu<br>Cefnogi gweithgorau pan gânt eu cynhyrchu'n lleol a sicrhau cynrychiolaeth mewn grwpiau cenedlaethol<br>Cymryd y dysgu a'r camau gweithredu o bob cyfle a ddarperir yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi gweithredu yn y rhanbarth<br>Cydlynu a hwyluso cynllunio a gweithredu lleol gyda phartneriaid | Mynychu'r Is-grŵp Gwasanaethau Asesu Cof Cenedlaethol (1.5 awr bob 2/12)<br>Datblygu a chynnal ffrwd waith ranbarthol e.e. aelodaeth a llywodraethu<br>Cael a defnyddio adborth gan ymarferwyr sy'n mynychu Cymuned Ymarfer Anabledd Dysgu yn eich rhanbarth<br>Cefnogi gweithgorau pan gânt eu cynhyrchu'n lleol a sicrhau cynrychiolaeth mewn grwpiau cenedlaethol<br>Cymryd y dysgu a'r camau gweithredu o bob cyfle a ddarperir yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi gweithredu yn y rhanbarth<br>Cydlynu a hwyluso cynllunio a gweithredu lleol gyda phartneriaid | Mynychu Cyfarfod Cenedlaethol Cysylltwyr Dementia (1.5 awr bob 1/12 - yn disgwyl ymgynnull ym mis Mawrth 2022)<br>Datblygu a chynnal ffrwd waith ranbarthol e.e. aelodaeth a llywodraethu<br>Mynychu neu nodi cynrychiolydd ar gyfer yr Is-grŵp Gwasanaethau Asesu Cof (1.5 awr bob 2/12)<br>Cefnogi gweithgorau pan gânt eu cynhyrchu'n lleol a sicrhau cynrychiolaeth mewn grwpiau cenedlaethol<br>Cymryd y dysgu a'r camau gweithredu o bob cyfle a ddarperir yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi gweithredu yn y rhanbarth<br>Cydlynu a hwyluso cynllunio a gweithredu lleol gyda phartneriaid | Mynychu Grŵp Llywio Siarter Ysbytai Cenedlaethol (1.5 awr bob 2/12)<br>Datblygu a chynnal ffrwd waith ranbarthol e.e. aelodaeth a llywodraethu<br>Cael a defnyddio adborth gan ymarferwyr sy'n mynychu cyfarfod y Rhwydwaith Ymarferwyr Cleifion Mewnol<br>Cefnogi gweithgorau pan gânt eu cynhyrchu'n lleol a sicrhau cynrychiolaeth mewn grwpiau cenedlaethol<br>Cymryd y dysgu a'r camau gweithredu o bob cyfle a ddarperir yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi gweithredu yn y rhanbarth<br>Cydlynu a hwyluso cynllunio a gweithredu lleol gyda phartneriaid | Arweinydd 5a) Mynychu'r grŵp Cenedlaethol Dysgu a Datblygu Dementia ar gyfer y grŵp gweithlu (2 awr 1/12)<br>Arweinydd 5b) Mynychu'r grŵp mesur Data cenedlaethol (1.5 awr bob 2/12)<br>Datblygu a chynnal ffrwd waith ranbarthol e.e. aelodaeth a llywodraethu<br>Cefnogi gweithgorau pan gânt eu cynhyrchu'n lleol a sicrhau cynrychiolaeth mewn grwpiau cenedlaethol<br>Sicrhau bod cysylltiad a phwrpas ar gyfer mesur yn cael ei nodi'n glir o fewn ffrydiau gwaith lleol<br>Cymryd y dysgu a'r camau gweithredu o bob cyfle a ddarperir yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi gweithredu yn y rhanbarth<br>Cydlynu a hwyluso cynllunio a gweithredu lleol gyda phartneriaid |

** Bydd angen alinio a chysylltu rhwng ffrydiau gwaith i groesgyfeirio rhai meysydd ymarfer ac angen e.e. ffrwd waith un: bydd dulliau cymunedol o ymdrin â gofal dementia yn cysylltu â rhaglenni ac ymyriadau a gynlluniwyd i gefnogi'r unigolyn a'r gofalwyr cyn ac ar ôl diagnosis; bydd llif i mewn ac allan o'r ysbyty yn cyd-fynd â dulliau gweithredu ar draws cymuned; bydd datblygu'r gweithlu yn cyd-fynd â'r holl ffrydiau gwaith fel y mae mesur. Dyma lle mae'r bwrdd dementia cyffredinol yn chwarae rhan wrth gysylltu'r swyddogaethau, y camau gweithredu a'r dysgu.

| Disgrifyddion Safonau | |
|---|---|
| 1 | Cam Un: ymgysylltu â'r gymuned gan ddefnyddio un ardal o fewn rhanbarth sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan gymryd 6 mis. 'sut beth yw gofal ac ymyrraeth dementia yn yr ardal hon' |
| 2 | Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae'n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol. |
| 3 | Mae Gwasanaethau Asesu Cof (MAS) a Gofal Sylfaenol (Meddyg Teulu) yn mabwysiadu codau READ i gofnodi diagnosis/nam gwybyddol ysgafn (MCI). Mae'n cynnwys cleifion mewnol. |
| 4 | Bydd Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn diffinio proses i gofnodi cyfanswm y boblogaeth sy'n byw gydag Anabledd Dysgu a Syndrom Down yn benodol er mwyn cynnig archwiliad llesiant gwybyddol. |
| 5 | Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu canlyniadau cyfres gytunedig o asesiadau ac ymyriadau a gwblhawyd wrth atgyfeirio i MAS (pan fydd yr angen yn dangos hynny). |
| 6 | Bydd Gwasanaethau Asesu Cof, o fewn cyfnod o 12 wythnos o'r adeg atgyfeirio, yn darparu ystod o ymyriadau i gefnogi diagnosis. Mae'n bosibl y bydd angen ystyried platfformau digidol ac addasiadau a dulliau eraill. |
| 7 | Bydd gweithiwr cyswllt ar gael i bobl a fydd yn gallu darparu cefnogaeth emosiynol drwy gydol y cyfnod asesu ac yn ystod y 48 awr nesaf ar ôl cael diagnosis, a sicrhau ei bod yn cael ei chynnig fel y bo'r angen ar ôl yr adeg hon |
| 8 | Bydd pobl sy'n byw gyda Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI) yn cael cynnig dewis o wasanaethau cyfannol sy'n monitro eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol. |
| 9 | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis, bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael cynnig addysg a gwybodaeth ynglŷn â phwysigrwydd gweithgareddau iechyd corfforol i gefnogi a hybu iechyd. |
| 10 | Bydd pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn cael cynnig dysgu, addysg a hyfforddiant sgiliau. |

| | |
|---|---|
| 11 | Bydd Cymru yn mabwysiadu’r Siarter Ysbytai sy’n Deall Dementia a bydd y broses o’i gweithredu a’i chanlyniadau yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. |
| 12 | Bydd gweithiwr cyswllt a enwyd (cysylltwr) yn cael ei neilltuo i bobl sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr i gynnig cymorth, cyngor a chyfeirio, drwy gydol ei daith o ddiagnosis i ddiwedd oes. |
| 13 | Bydd pobl sy’n byw gyda dementia yn cael mynediad, pan fydd angen, at wasanaethau perthnasol (a phan ddefnyddir gwasanaethau iechyd meddwl) penodol ar ôl diagnosis ni waeth ble maen nhw’n byw (wedi’u rhestru) e.e. ffisiotherapi, dieteteg. |
| 14 | Bydd gan bobl sy'n byw gyda dementia apwyntiad wyneb yn wyneb cyfredol lle cynhelir adolygiad iechyd corfforol mewn partneriaeth gan ofal sylfaenol ac eilaidd. |
| 15 | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis o ddementia, bydd pobl yn cael cynnig cymorth i ddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gofal diwedd oes. |
| 16 | Bydd sefydliadau a lleoliadau gofal sy’n darparu gofal dementia dwys (mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu) yn darparu Mapio Gofal Dementia mewn ymarfer arferol. |
| 17 | Bydd pob aelod o staff sy’n darparu gofal ar bob lefel ym mhob disgyblaeth a lleoliad yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda chymorth i roi hynny ar waith mewn arferion dyddiol. |
| 18 | Bydd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr / teuluoedd yn cael cefnogaeth a chymorth i ymgysylltu ag apwyntiadau |
| 19 | Bydd gwasanaethau'n sicrhau pan fydd yn rhaid i unigolyn sy'n byw gyda dementia newid / symud rhwng unrhyw leoliadau neu wasanaethau, bydd gofal yn cael ei gydlynu'n briodol i alluogi'r unigolyn i ystyried ac addasu i'r amgylchedd newydd. |
| 20 | Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y rhanbarth yn cyflawni gofynion yr eitemau data y cytunwyd arnynt (llyfr gwaith mesur (llawlyfr)) ar gyfer adrodd a sicrwydd. |